


Sut i gyrraedd yno:

Trafnidiaeth gyhoeddus: Y Pâl Gwibio (hygyrch i gadeiriau olwyn).

Eich trafndiaeth eich hun: De Sir Benfro; 8 milltir i'r Gorllewin o Hwlfordd. Dewch ar heol y B4341. Mae parcio bach ar ddechrau'r daith gyda llefydd parcio i ddeiliaid Bathodyn Glas.



Cyfeirnod grid y man cychwyn: SM863163.

Toiledau: dim toiledau. Toiledau agosaf ym maes parcio Broad Haven (tymhorol, 2 filltir) a maes parcio Nolton Haven (1.5 milltir).

Sylwer: mae yna lechfaen mawr wrth yr ail olygfan a ddefnyddir fel sedd anffurfiol.

Haroldston Chins

Taith fynediad hwylus: 0.8 milltir (1.3 km)

Taith antur: 2.1 milltir (3.4 km)

Cymeriad: taith ar hyd Llwybr yr Arfordir gyda golygfeydd gwych. Mae yna arwyneb ar y rhan gyntaf (taith fynediad hwylus) ac mae'r gweddill ar arwynebau naturiol, sy'n cynnwys porfa, gyda graddiannau serth.



**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park**



Disgrifiad

Y rhan gyntaf o'r daith hon (at yr ail olygfan) yw'r daith fynediad hwylus: mae arni arwyneb tarmac a seddau ar hyd y daith. Mae gweddill y daith (ar ôl yr ail olygfan) ar arwynebau naturiol, gyda rhai rhigolau a graddiannau serth.

Mae yna olygfeydd gwych dros Fae San Ffraid: i'r Gogledd, y morlin garw i Rickets Head, penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi, ac i'r

De tuag at Ynys Sgomer. Ar ddiwrnodau clir, rydych chi hefyd yn gallu gweld ynys Gwales yn y Gorllewin; mae'r mulfrain gwynion sy'n nythu ar yr ynys yn ei gorchuddio gyda baw adar, a dyna sy'n rhoi'r lliw gwyn iddo yn yr Haf.

Wrth i chi ddychwelyd ar hyd y llwybr sydd ag arwyneb, fe allwch chi weld y clogwyni fertigol trawiadol o siâl du gyda haenen drwchus o dywodfaen uwch eu pennau.



Cyfarwyddiadau

Gadewch y maes parcio ar y llwybr tuag at y môr. Dilynwch y llwybr o amgylch yr olygfan gyntaf arno i Lwybr yr Arfordir. Ychydig heibio i'r drydedd sedd mae yna raddiant o 1:15 am 10 metr. Ar gyfer yr ail olygfan dilynwch y llwybr ag arwyneb i'r dde. Ewch yn ôl yr un ffordd os ydych ond yn dilyn y daith fynediad Hwylus.

Ar gyfer y Daith Antur, cerddwch yn ôl o'r ail olygfan am ychydig o fetrau ac ewch yn ôl arno i Lwybr yr Arfordir trwy ddilyn y llwybr ar y dde. Dilynwch y llwybr hwn i lawr y tyle (graddiant o 1:12 i 1:6 am 20 metr), ac yna i fyny (graddiant o 1:8 am 6 metr).

Ar ôl mynd trwy giât a chyn cyrraedd y sedd nesaf, mae yna ddwy adran serth i lawr y tyle (hyd at 1:8 am 8 metr, yna 1:8 i 1:6 am 13 metr), ac yna adran fer i fyny'r tyle (1:8 am 6 metr). Mae'r sedd yn ôl oddi wrth y llwybr.

Ar ôl y sedd, mae yna adran serth i lawr y tyle tuag at y môr (1:8 i 1:6 am 32 metr), ac yna llethr sydd ychydig yn ysgafnach i lawr y tyle (1:9 i 1:6 am 25 metr). Yna, mae'r llwybr yn codi eto gyda dwy adran serth (1:9 am 5 metr ac 1:9 i 1:7 am 54 metr) at giât.

Ar ôl y giât mae'r llwybr yn mynd i lawr y tyle'n hamddenol. Mae'r daith yn dod i ben wrth graig fawr wen, gyda golygfeydd da o'r gaer o'r Oes Haearn. Ewch yn ôl yr un ffordd.

